**EOC-04-00(P.4)**
**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Iau, 25 Mai 2000 |
| Amser: | 9.30am |
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Teitl: | Penodiadau Cyhoeddus yr NHS |

Mae'r papur amgaeedig yn amlinellu'r gweithdrefnau a ddilynir wrth wneud penodiadau cyhoeddus i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 1999.

**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-05-99(p.1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 22 Gorffennaf 1999 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Penodiadau Cyhoeddus yr NHS hyd fis Rhagfyr 2000 |

**Diben**

1. Gofyn am farn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gweithdrefnau i'w mabwysiadu dan god ymarfer penodiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a chyfarwyddyd y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus wrth ystyried penodiadau cyhoeddus i'r NHS yn y cyfnod hyd ddiwedd 2000.

**Argymhellion**

2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau'r gweithdrefnau arfaethedig i ddethol ymgeiswyr ar gyfer penodiadau cyhoeddus yr NHS.

**Amseru**

3. Brys, oherwydd ei bod yn amser gwneud nifer fawr o benodiadau i'r NHS, yn enwedig yn y cyfnod hyd Ebrill 2000.

**Pwerau a Chyfyngiadau**

4. Mae'r broses ar gyfer gwneud penodiadau cyhoeddus i'r NHS gan y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei rheoli fel a ganlyn:

- termau deddfwriaeth berthnasol yr NHS a drosglwyddir iddo;

- y "Canllawiau ar Benodiadau i Gyrff Cyhoeddus" a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 1998 gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus (cyfarwyddyd OCPA);
- y "Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus" a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 25 Mai 1999 (y Cod);
- a'r papur ar benodiadau cyhoeddus a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor (HSS-01-99).

5. O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r dogfennau hyn yn rhagnodi'r prosesau priodol ar gyfer y gwahanol fathau o benodiadau i'w gwneud. Mae 2 brif amcan:

> "All public appointments in Wales should be governed by the overriding principle of selection based on merit, by the well informed choice of individuals who, through their abilities, experience and qualities, match the needs of the public bodies in question." (Y Cod, paragraff 6); a
>
> "The Commissioner's overall objective is to help departments create an appintments system in which candidates and the public have confidence. The process must be efficient, transparent and one which produces results based on merit. Candidates must not only have knowledge of the process, but also, in experiencing it at first hand, must feel that, whatever the outcome of their application, they have been fairly treated." (Cyfarwyddyd OCPA, paragraff 1.4.)

6. Er bod gan yr Ysgrifennydd Cynulliad neu'r Prif Ysgrifennydd (fel y bo'n briodol) rywfaint o ddisgresiwn wrth ddefnyddio'r gweithdrefnau yn ôl amgylchiadau penodol pob penodiad ac wrth benderfynu rhwng ymgeiswyr, mae'n rhaid dangos eu bod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau, a darparu tystiolaeth ysgrifenedig o sail y penderfyniadau, yn enwedig wrth ddefnyddio'r disgresiwn. Y rheswm am hyn yw:

- gall OCPA ymchwilio i gwynion yn erbyn y Cynulliad gan ymgeiswyr am benodiad sy'n anfodlon;
- mae gan OCPA raglen archwilio cydymffurfio â'r cyfarwyddyd;
- gall penderfyniadau'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn sail i arolwg barnwrol.

7. Er mwyn osgoi gormod o bwysau yn sgil y gweithdrefnau a chofnodi'r broses, mae cyfarwyddyd OCPA a'r Cod yn cynnwys syniad o gymesuredd yn yr egwyddorion sy'n sail i'r prosesau penodi: hynny yw, dylent fod yn briodol i natur y swydd a maint a phwysau'r cyfrifoldebau. Bydd sicrhau cydbwysedd gydag egwyddorion eraill cyfrifoldeb gweithredol, haeddiant, archwilio annibynnol, cyfle cyfartal, cywirdeb a thryloywedd/bod yn agored, yn bwysig iawn gan mai gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y mae'r portffolio penodiadau mwyaf o holl Ysgrifenyddion y Cynulliad.

8. Felly, mae'r papur hwn yn nodi'r trefniadau a awgrymir ar gyfer delio â phenodiadau'r NHS, gan geisio sicrhau fod y Pwyllgor yn goruchwylio'r prosesau yn briodol, trwy'r 2 a enwebwyd, heb roi gormod o bwysau ar y rhai dan sylw a gwneud proses hir hyd yn oed yn waeth. Bydd gofyn i'r trefniadau a fabwysiadir gael eu hadolygu gyda phrofiad.

**Penodiadau NHS**

9. Yn Atodiad 1, ceir rhestr o'r cyrff NHS y gwneir penodiadau cyhoeddus iddynt gan y Cynulliad Cenedlaethol. Yn Atodiad 2, ceir rhestr fanwl o'r holl benodiadau i ymddiriedolaethau NHS y mae'n rhaid eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn 2000; yn Atodiad 3 ceir y rhestr gymharol ar gyfer awdurdodau

iechyd (nad yw'n cynnwys Cadeirydd Awdurdod Iechyd Bro Taf a fydd yn wag ym mis Medi ar ymddeoliad Mrs Kate Thomas, felly mae'r broses yn mynd rhagddi ar hyn o bryd); yn Atodiad 4 ceir rhestr ar gyfer cyrff proffesiynol/ymgynghorol a thribiwnlysoedd; ac yn Atodiad 5 ceir rhestr ar gyfer CIC.

10. Bydd y prosesau penodiadau cyhoeddus sydd eisoes wedi cychwyn dan yr hen weithdrefnau a fodolai cyn y Cynulliad Cenedlaethol (4 swydd wag mewn awdurdodau iechyd a 2 mewn ymddiriedolaethau a chyfansoddiad byrddau ymddiriedolaethau NHS ailgyfluniedig Caerdydd a'r Fro yn unol â chyfarwyddyd OCPA) yn cael eu cwblhau dan y trefniadau hynny, gan gyflwyno adroddiad ar y canlyniadau i'r Pwyllgor drwy Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Y Broses**

11. Yn Atodiad 6 ceir cynllun penodi nodweddiadol ar gyfer dethol cadeirydd ymddiriedolaeth NHS ac awdurdod iechyd. Bydd panel ymgynghorol o Gyfarwyddwr NHS, aelod annibynnol a phennaeth Uned Penodiadau'r NHS yn trafod â'r Ysgrifennydd Cynulliad a'r 2 a enwebir ynglyn â'r cynllun penodi, gan gynnwys manyleb y swydd, meini prawf ac amserlen ar ganlyniad y dethol, a byddant yn cyfweld yr ymgeiswyr ar y rhestr fer gyda'r panel ymgynghorol. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y swyddi hyn.

12. Yn Atodiad 7 ceir cynllun penodi nodweddiadol ar gyfer dethol cyfarwyddwyr anweithredol ymddiriedolaethau NHS, aelodau anweithredol awdurdodau iechyd, aelodau cyrff proffesiynol/ ymgynghorol a thribiwnlysoedd a'r rhai a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol i Gynghorau Iechyd Cymunedol. Mae'r cynllun hwn yn rhagweld y byddai'r panel ymgynghorol yn trafod â'r Ysgrifennydd Cynulliad a'r rhai a enwebir (yn unol â pharagraff 11, ond gan gynnwys cadeirydd yr ymddiriedolaeth NHS neu'r awdurdod iechyd perthnasol lle bo'n briodol) ar bob cam o'r broses, gan gynnwys canlyniad cyfweliadau'r panel â'r ymgeiswyr ar y rhestr fer. Efallai y bydd gofyn addasu'r broses ar gyfer penodiadau i Gymru a Lloegr a chyrff y DU yn sgil cyfranogiad adrannau'r Llywodraeth.

13. Mae'r 2 broses, sy'n gyson â chyfarwyddyd OCPA a'r Cod, yn rhagweld yn gyffredinol y bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad a'r 2 a enwebir yn cymryd rhan yng nghyfweliadau'r ymgeiswyr am swyddi cadeiryddion ymddiriedolaethau NHS ac awdurdodau iechyd a bydd y panel ymgynghorol yn trafod â hwy ar bob cam perthnasol arall o'r penodiadau hyn ac eraill. Ym mhob cam o'r broses, yr Ysgrifennydd Cynulliad sy'n gwneud y penderfyniad terfynol. Awgrymir:

- y byddai llai o gyfranogiad gan y 2 a enwebir yn golygu na fyddent yn cael digon o gyfle i oruchwylio;
- byddai mwy o gyfranogiad (ac eithrio lle byddai amgylchiadau unigol yn awgrymu bod hynny'n ddelfrydol) yn rhy feichus. Er enghraifft, gallai'r Ysgrifennydd Cynulliad a'r 2 a enwebir gyfranogi wrth i'r panel ymgynghorol ddethol ymgeiswyr ar gyfer penodi cadeiryddion ymddiriedolaethau NHS, yn hytrach nag ystyried adroddiad ar y broses gan y panel. Ond mae'r rhain yn cymryd amser (gan eu bod yn fiwrocrataidd), a bydd angen gwneud hyn bedair gwaith yn yr hydref.

**Cymhwysedd ar gyfer Ailbenodi**

14. Bydd gofyn addasu'r broses a ddisgrifir uchod mewn rhai achosion i roi ystyriaeth i gyfarwyddyd OCPA a'r Cod ar ystyried aelodau cyfredol y gwahanol gyrff y daw eu penodiadau i ben yn ystod y cyfnod dan sylw. Ceir cyfarwyddyd OCPA ar ailbenodi ym mharagraffau 3.11 i 3.14, ac mae'n rhagweld y gellir ailbenodi yn dilyn un tymor o berfformiad boddhaol yn yr un swydd (gweler hefyd atodiad 2 y Cod). Pan fo

person wedi gwasanaethu mewn corff a oedd yn rhagflaenydd, ond wedi'i benodi i'r corff newydd yn dilyn cystadleuaeth agored a theg, mae OCPA wedi cytuno y dylent fod yn gymwys i'w hailbenodi gan mai un tymor yn unig y byddant wedi'i wasanaethu yn dilyn cystadleuaeth agored. Bydd cyfanswm yr amser y bu'r person yn gwasanaethu yn ffactor wrth ystyried ailbenodi dan yr amgylchiadau hyn er na fyddai hynny fel rheol yn creu anhawster mewn achosion lle'r oedd cyfanswm yr amser yn y swydd yn llai na 10 mlynedd. Byddai'r broses fel a ganlyn:

**14.1 Cadeiryddion ag un tymor yn y swydd**

a. gwahodd y sawl sydd yn y swydd i ddweud a yw am gael ei ystyried i'w ailbenodi;
b. os nad yw, mynd ymlaen i hysbysebu;
c. os yw am aros yn y swydd, yr Ysgrifennydd Cynulliad, yn dilyn ymgynghori â'r 2 a enwebir, i benderfynu ailbenodi neu fynd ymlaen i hysbysebu.

**14.2 Cadeiryddion â mwy nag un tymor yn y swydd**

a. fel 14.1 a uchod;
b. mynd ymlaen i hysbysebu;
c. ystyried yr holl ymgeiswyr yn unol â'r weithdrefn ym mharagraff 11.

**14.3 Cyfarwyddwyr/aelodau anweithredol â dim ond un tymor yn y swydd**

a. gwahodd y sawl sydd yn y swydd i ddweud a yw am gael ei ystyried i'w ailbenodi;
b. os nad yw, mynd ymlaen i hysbysebu (yn enwedig ar gyfer lleoedd gwag ad hoc) neu ddewis ymgeiswyr o gronfa o ymgeiswyr blaenorol am benodiadau tebyg, os yw hynny ar gael;
c. os yw am aros yn y swydd, gofyn i gadeirydd y corff roi asesiad o berfformiad y sawl sydd yn y swydd;
d. yn sgil yr asesiad hwn, yr Ysgrifennydd Cynulliad, yn dilyn ymgynghori â'r rhai a enwebir, i benderfynu ailbenodi neu fynd ymlaen i hysbysebu.

**14.4 Cyfarwyddwyr/aelodau anweithredol â mwy nag un cyfnod yn y swydd**

a. fel 14.3a uchod;
b. mynd ymlaen i hysbysebu;
c. ystyried yr holl ymgeiswyr yn unol â'r weithdrefn ym mharagraff 12.

15. Ni ddylid defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn slafaidd, gan ei bod yn bosibl cael rhai amgylchiadau eithriadol lle byddai gofyn eu hamrywio. Byddai gofyn cytuno ar amrywiadau o'r fath, a'u cofnodi.

**Cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

16. Awgrymir y byddai'r Ysgrifennydd Cynulliad yn rhoi gwybod i'r 2 a enwebir ynglyn â chanlyniad pob proses benodi, ac yn rhoi adroddiad byr yr aseswr annibynnol ar y broses. Byddai manylion byr am bob penodiad yn rhan o adroddiad misol yr Ysgrifennydd Cynulliad, fel y bo'n briodol.

**Cydymffurfio**

17. Gwneir penodiadau i’r NHS dan y darpariaethau deddfwriaethol canlynol, sydd wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad Cenedlaethol:

- Ymddiriedolaethau NHS: Rheoliadau Gweithdrefn ac Aelodaeth Ymddiriedolaethau NHS 1990 (diwygiad 1996), yn unol â Deddf NHS 1990;
- Awdurdodau iechyd: Rheoliadau Gweithdrefn ac Aelodaeth Awdurdodau Iechyd 1996, yn unol â Deddf Awdurdodau Iechyd 1995;
- Cynghorau iechyd cymunedol: Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymunedol 1996, yn unol â Deddf NHS 1977;
- cyrff proffesiynol/ymgynghorol a thribiwnlysoedd: Deddfau amrywiol. Nodir pob un ohonynt yn y cynlluniau penodi perthnasol ar yr amser priodol.

**Goblygiadau Ariannol**

18. Cyllideb rhaglen penodiadau NHS 1999-00 yw £77,000. Mae’r swm yn ymwneud â chost hysbysebu a threuliau aseswyr annibynnol. Byddai gwneud mwy o hysbysebu (er enghraifft, trwy hysbysebu pob penodiad, hyd yn oed penodiadau cyntaf) yn gofyn am gyllid pellach. Roedd yr hysbyseb ddiweddar ar gyfer cadeirydd Awdurdod Iechyd Bro Taf, a ymddangosodd yn y "Western Mail", papurau lleol wythnosol yn yr ardal, "Y Cymro" a "Golwg", yn costio £11,000. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i dalu cydnabyddiaeth i aseswyr annibynnol. Ni fyddai’r cynigion yn y papur hwn yn codi costau’r rhaglen yn sylweddol.

**Themâu trawsbynciol**

19. Bydd yn bwysig sicrhau fod egwyddor cyfle cyfartal yn rhan o’r broses benodi (gweler paragraff 11 y Cod). Bydd y Pwyllgor yn cael gwybodaeth reolaidd am nifer/cyfran y menywod, yr anabl a lleiafrifoedd ethnig a benodir ac oedran y rhai a benodir. Bydd hyn yn cydfynd â gwaith yr Uned Penodiadau Cyhoeddus ar lunio Cynllun Cydraddoldeb Penodiadau (gan gynnwys y ffordd y disgrifir y gwahanol swyddi a’r ffordd y mae’r meini prawf yn cael eu diffinio a’u cymhwyso), a gwaith yr Uned ar ddenu ymgeiswyr o gefndiroedd mwy amrywiol.

**ATODIAD 1**

**UNED BENODIADAU’R NHS**

Mae Cyfarwyddiaeth Uned Benodiadau’r NHS yn gyfrifol am y canlynol:

**Ymddiriedolaethau’r NHS**

Cyfanswm o 16 Ymddiriedolaeth

Mae gan bob un Gadeirydd a hyd at 7 Cyfarwyddwr Anweithredol, gyda un ohonynt wedi’i benodi drwy enwebiad Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru [ac eithrio Ymddiriedolaeth NHS Caerfyrddin]

· Abertawe

· Bro Morgannwg

· Ceredigion a’r Canolbarth

· Ysbytai CMC a Llandochau

· Conwy a Sir Ddinbych

· Cymuned a Dosbarth Caerdydd

· Felindre

· Gofal Iechyd Gwent

· Gofal Iechyd Powys

· Gogledd Morgannwg

· Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

· Pontypridd a’r Rhondda

· Sir Benfro a Derwen

· Sir Gaerfyrddin

· Y Gogledd Ddwyrain

· Y Gogledd Orllewin

**Awdurdodau Iechyd**

Cyfanswm o 5 Awdurdod Iechyd.

Mae gan bob un Gadeirydd a hyd at 7 Aelod Anweithredol.

· Bro Taf

· Dyfed Powys

· Gwent

· Iechyd Morgannwg

· Y Gogledd

**Cynghorau Iechyd Cymunedol**

Cyfanswm o 22 CIC (i’w gynyddu i 28 o Ebrill 2000).

Mae gan bob CIC 2 aelod a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol/Prif Ysgrifennydd.

| | Cyfredol | O Ebrill 2000 |
|---|---|---|
| · | Brycheiniog a Maesyfed | Abertawe |
| · | Pen-y-bont ar Ogwr | Blaenau Gwent |
| · | Caerfyrddin/Dinefwr | Bro Morgannwg |
| · | Caerdydd | Brycheiniog a Maesyfed |
| · | Ceredigion | Caerdydd |
| · | Taf Elái a’r Rhondda | Caerffili |
| · | Abertawe | Caerfyrddin |
| · | Conwy | Casnewydd |
| · | Dyffryn Clwyd | Castell-nedd/Port Talbot |
| · | Gogledd Gwynedd | Ceredigion |
| · | Llanelli Dinefwr | Colwyn |
| · | Merthyr a Chwm Cynon | Cynon |
| · | Sir Drefaldwyn | Dinbych |
| · | Castell-nedd a Phort Talbot | Gogledd Gwynedd |
| · | Y Gogledd Ddwyrain | Llandudno a Chonwy |
| · | Gogledd Gwent | Llanelli/Dinefwr |
| · | Caerffili | Meirionnydd |
| · | Ynys Môn | Merthyr |
| · | Bro Morgannwg | Pen-y-bont ar Ogwr |

- De Gwent
- Sir Benfro
- Meirionnydd

Rhondda

Sir Benfro

Sir Drefaldwyn

Sir Fynwy

Sir y Fflint

Taf Elái

Tor-faen

Wrecsam a Llangollen

Ynys Môn

**Cyrff Ymgynghori Iechyd Proffesiynol**

Ar hyn o bryd, ceir 57 o Gyrff Ymgynghori Iechyd a gwneir penodiadau naill ai ar y cyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Iechyd eraill neu ar ôl ymgynghori ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Nifer y penodiadau yng Nghymru yn unig mewn cromfachau).

· Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddyfarniadau Rhagoriaeth (1)

· Y Pwyllgor Ymgynghorol ar sylweddau "ffiniol" (1)

· Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gyffuriau’r NHS

· Y Pwyllgor Ymgynghorol ar Bathogenau Peryglus

· Y Comisiwn Cyffuriadur Prydeinig

· Cyngor i Alwedigaethau sy’n Atodol i Feddyginiaeth

· Cyngor Cymdeithas Fferyllol Prydain Fawr

· Grp Astudio Cyfraddau Deintyddol

· Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

· Y Pwyllgor Ymgynghorol Bwyd

· Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol

· Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

· Y Cyngor Optegol Cyffredinol

· Pwyllgor Ymgynghorol Therapi Genynnau

· Yr Awdurdod Ffrwythloniad ac Embryoleg Dynol (HFEA)

· Cyd Bwyllgor ar Frechu ac Imwneiddio (JCVI) (1)

· Pwyllgor Ymarferion Meddygol

· Y Cyngor Ymchwil Meddygol

· Y Comisiwn Meddyginiaethau

· Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddiogelwch Microbiolegol Bwyd

· Y Pwyllgor Deintyddol Cynorthwyol

· Bwrdd Diogelwch Radiolegol Cenedlaethol

· Bwrdd Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd (1)

· Y Pwyllgor Ymgynghorol Deintyddol Sefydlog (1)

· Y Pwyllgor Ymgynghorol Meddygol Sefydlog (1)

· Y Pwyllgor Ymgynghorol Nyrsio a Bydwreigiaeth Sefydlog (2)

· Pwyllgor Ymgynghorol Fferyllol Parhaol (1)

· Cyngor Canolog y DU ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd

· Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl (6 ar hyn o bryd – hyd at uchafswm o 11)

· Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

· Bwrdd Safonau Biolegol Cenedlaethol

· Tribiwnlys y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

· Asiantaeth Rheoli Moddion

· Y Pwyllgor ar Ddiogelwch Moddion

· Y Pwyllgor Cymreig ar Ddatblygiad Proffesiynol Fferyllol (10)

· Bwrdd Cenedlaethol Cymreig ar gyfer Nyrsys, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd (7)

· Y Bwrdd Ymarfer Deintyddol (1 – yr Is-Gadeirydd)

· Cyngor Addysg Feddygol a Deintyddol Ôl Raddedig Cymru

· Corff Adolygu Tâl Nyrsys

· Trefniadau Cwynion NHS (Cadeiryddion Lleyg a Swyddogion Lleyg)

· Pwyllgor Ymgynghorol Enseffalopathi Sbyngffurf (SEAC)

· Grp Defnyddwyr Gwaed Cenedlaethol

· Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol

· Pwyllgor Ymgynghorol Deunyddiau Ymbelydrol

· Corff Adolygu Meddygon a Deintyddion

· Pwyllgor Aml Ganolfan Ymchwil Moeseg (Cymru) (12)

· Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

· Awdurdod Gwasanaeth Cynnal Trawsblannu'r DU (UKTSSA)

· Awdurdod Rheoliadol Trawsblannu Byw Anghysylltiol (ULTRA)

· Pwyllgor Ymgynghorol Bwydydd a Phrosesau Newydd

· Ymholiadau Cyfrinachol i Enedigaethau Marw a Marwolaethau mewn Babandod (NAB)

· Grp Arbenigol ar Fitiminau a Mwynau

· Grp Ymgynghorol Safonau Clinigol

· Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Glinigol

· Y Pwyllgor Geneteg ac Yswiriant

· Y Comisiwn Gwella Iechyd (1)

Y Comisiwn Geneteg Dynol

**Atodiad 2**

| **Ymddiriedolaethau NHS** | Cadeirydd/ CAW | **Teitl** | **Llythyren Flaen** | **Cyfenw** | **Cyfnodau Blaenorol** | **Cyfnod Cyfredol** | **Cyfnod yn dod i ben** | **Nifer y cyfnodau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion a'r Canolbarth | Cadeirydd | Ms | E | Ebenezer | Dim wedi'u cofnodi | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Ceredigion a'r Canolbarth | CAW | Mrs | M | Griffiths | Wedi bod yn Gyf. Anweithredol (CAW) gyda'r Ymddiriedolaeth ers Tach 1992 | 01/05/1995 | 30/10/1999 | 2 |
| Ceredigion a'r Canolbarth | CAW | Yr Athro. | J | Matthews | Wedi bod yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Rhag 1992 | 01/05/1995 | 30/10/1999 | 2 |
| Ceredigion a'r Canolbarth | CAW | Mrs | C | Edwards | Wedi bod yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Ebrill 1992 | 01/05/1996 | 31/03/2000 | 2 |
| Ceredigion a'r Canolbarth | CAW | Mr | D I | Davies | Wedi bod yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Gorff 1992 | 01/05/1996 | 31/03/2000 | 2 |
| Conwy a Dinbych | Cadeirydd | Mr | M | Griffith | Cadeirydd hen Ymddiriedolaeth Glan Clwyd: 1992-Mawrth 1999 Cadeirydd Awdurdod Iechyd Clwyd1980-1990 | 04/01/1999 | 31/12/2000 | 1 |
| Gogledd Morgannwg | Cadeirydd | Yr Athro | M D | Vickers | Cyn-aelod o AI Morgannwg Ganol 1992-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Morgannwg | CAW | Mr | M T | Beynon | Dim wedi'u cofnodi | 06/07/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Morgannwg | CAW | Mr | A J | Moreton | Dim wedi'u cofnodi | 05/07/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Morgannwg | CAW | Mr | J N | Bonnar | Dim wedi'u cofnodi | 06/07/1996 | 31/03/2000 | 1 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pontypridd a'r Rhondda | Cadeirydd | Mr | I | Kelsall | Cadeirydd hen Ymddiriedolaeth NHS Dwyrain Morgannwg1994 - Mawrth 1999 Hefyd cyn CAW gydag Ymddiriedolaeth NHS Llandochau: 1993-1994 | 01/04/1999 | 31/03/2000 | |
| Gofal Iechyd Powys | Cadeirydd | Anrh Mr | L A T | Lewis | Cyn-Gadeirydd FHSA Powys1990-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gofal Iechyd Powys | CAW | Mrs | L A | Davies | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Tach 1992 | 01/05/1995 | 30/10/1999 | 2 |
| Gofal Iechyd Powys | CAW | Mr | R S | Jones | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Tach 1992 | 01/05/1995 | 30/10/1999 | 2 |
| Gofal Iechyd Powys | CAW | Lady | B | Davies | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Chwef 1994 Hefyd yn gyn-aelod o DHA Powys: 1987-1992 | 01/05/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gofal Iechyd Powys | CAW | Mr | R I | Cross | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Ion 1993 | 01/05/1996 | 31/03/2000 | 2 |
| Abertawe | Cadeirydd | Mr | J | Button | Cadeirydd hen Ymddiriedolaeth NHS Abertawe - 1992- Ebrill 1999 | 04/01/1999 | 31/12/2000 | |
| Felindre | CAW | Mr | K | Hodge | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Tach 1994 | 01/12/1995 | 30/11/1999 | 2 |
| Felindre | CAW | Dr | P M C | Hodge | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Ebrill 1994 | 01/01/1998 | 31/03/2000 | 2 |
| Felindre | CAW | Mr | E | Daniel | Yn CAW gyda'r Ymddiriedolaeth ers Tach 1994 | 01/12/1995 | 30/11/1999 | 2 |

* Yn berthnasol i'r nifer o gyfnodau a wasanaethwyd yn y swydd gyfredol

**Atodiad 3**

| AI | Cadeirydd/ CAW | Teitl | Llythyren Flaen | Cyfenw | Cyfnodau Blaenorol | Cyfnod Cyfredol | Cyfnod yn dod i ben | Nifer y cyfnodau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Taf | CAW | Yr Athro | I | Cameron | Cyn-aelod o AI De Morgannwg 1994-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Bro Taf | CAW | Yr Athro | B | Dimond | Cyn-aelod o FHSA Morgannwg Ganol: 1990-1994 Hefyd, Cadeirydd yr FHSA1994 - 1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Bro Taf | CAW | Mr | S | Jones | Cyn-aelod o AI De Morgannwg 1990 - 1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Bro Taf | CAW | Dr | B | Wookey | Cyn-aelod o FHSA Morgannwg Ganol: 1993-0996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyfed Powys | CAW | Yr Athro | J | Williams | Cyn-aelod o AI Dwyrain Dyfed: 1994 - 1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyfed Powys | CAW | Mr | K | Cross | Cyn-aelod o AI Sir Benfro: 1992 - 1995 Hefyd yn gyn-aelod o AI Dwyrain Dyfed: '95-'96 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyfed Powys | CAW | Dr | M | Davies | Cyn-aelod o FHSA Dyfed: 1992-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyfed Powys | NEM | Dr | A | Reid | Cyn-aelod o FHSA Powys: 1991-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyfed Powys | NEM | Mr | P | Swanson | Cyn-Gadeirydd AI Powys: 1992 - 1996 Penodwyd yn gyntaf i'r AI ar 1 Ebrill 1996 | 01/04/1998 | 31/03/2000 | 2 |
| Gwent | CAW | Dr | I | Finlay | Dim wedi'u cofnodi | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Morgannwg | CAW | Yr Athro | R | Mansel | Dim wedi'u cofnodi | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Morgannwg | CAW | Mr | RJ | Davies | Cyn-aelod o FHSA Gorllewin Morgannwg: 1990-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Morgannwg | CAW | Mr | D | Deere | Cyn-aelod o DHA Morgannwg Ganol: 1993-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Morgannwg | CAW | Dr | E M | Williams | Cyn-aelod o FHSA Gorllewin Morgannwg: 1989-1990 Hefyd cyn-aelod o FPC Gorllewin Morgannwg: '89-'90 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Cymru | CAW | Yr Athro | G | Roberts | Cyn CAW Ymddiriedolaeth Wrecsam Maelor: 1992-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Cymru | CAW | Mrs | P | Brooke | Cyn-aelod AI Gwynedd: 1994-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Cymru | CAW | Mrs | A | Roberts | Cyn-aelod o AI Clwyd: 1989 - 1990 Cadeirydd AI: 1990-1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Cymru | CAW | Mr | G | Thomas | Cyn-aelod FHSA Gwynedd: 1991 - 1996 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |

*** Yn berthnasol i'r nifer o gyfnodau a wasanaethwyd yn y swydd gyfredol**

**Atodiad 4**

| Corff | Safle | Teitl | Llythyren Flaen | Cyfenw | Cyfnodau Blaenorol | Cyfnod Cyfredol | Cyfnod yn dod i ben | Nifer y cyfnodau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Awdurdod Ffrwythloniad ac Embryoleg Dynol | Aelod | Yr Athro | J | Williams | Penodwyd gyntaf ar 28 Meh 94 | 07/11/1998 | 06/11/1999 | 3 |
| Cyd Bwyllgor ar Frechu ac Imwneiddio | Aelod | Dr | D H | Joynson | Dim | 10/03/1995 | 31/03/99 [1] | 1 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Ymarferion Meddygol | Aelod | Dr | J | Griffiths | Penodwyd gyntaf ar 1 Ebrill 94 | 01/04/1997 | 31/03/2000 | 2 |
| Bwrdd Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd | Aelod | Mr | D | Seal | Dim | 06/10/1997 | 31/07/2000 | 1 |
| Y Pwyllgor Ymgynghorol Deintyddol Sefydlog | Aelod | Mr | A | Glenn | Dim | 24/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl | Aelod | Mrs | M G | Lloyd | Penodwyd gyntaf ar 1 Tach 95 | 01/11/1995 | 31/10/99 [2] | 1 |
| Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl | Aelod | Ms | J | Burton | Dim | 01/04/1998 | 31/10/99 [2] | 1 |
| Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl | Aelod | Dr | S B | Francis | Penodwyd gyntaf ar 1 Tach 95 | 19/01/1999 | 31/10/99 [2] | 2 |
| Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl | Aelod | Mr | L | Dodds | Penodwyd gyntaf ar 1 Tach 95 | 01/11/1996 | 31/10/2000 | 2 |
| Comisiwn y Ddeddf Iechyd Meddwl | Aelod | Mrs | J | Lewis | Penodwyd gyntaf ar 1 Tach 95 | 01/11/1995 | 31/10/1999 | 1 |
| BCC ar gyfer Nyrsys, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd | Aelod | Miss | S V | Kent | Dim | 24/06/1997 | 31/03/00 [3] | 1 |
| BCC ar gyfer Nyrsys, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd | Aelod | Mr | J V | Williams | Penodwyd gyntaf ar 1 Ebrill 93 | 27/05/1995 | 31/12/99 [4] | 2 |
| BCC ar gyfer Nyrsys, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd | Aelod | Mrs | B F | Bale | Dim | 24/10/1996 | 31/12/99 [5] | 1 |
| BCC ar gyfer Nyrsys, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd | Cadeirydd | Mr | S | Wyn Jones | Penodwyd gyntaf ar 1 Ebrill 93 | 01/04/1997 | 31/03/00 [6] | 2 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Pwyllgor Ymgynghorol Nyrsio, Bydwreigiaeth Sefydlog | Aelod | Mr | H A | Teaney | Penodwyd gyntaf ar 2 Mawrth 95 | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 2 |

**Nodiadau:**

*** Yn ymwneud â'r nifer o gyfnodau y bu'n gwasanaethu yn y swydd**

[1] Mae cyfnodau nifer o aelodau'r Pwyllgor wedi dod i ben - Bydd gweithwyr yr Adrannau Iechyd yn chwilio am enwebiadau yn y cyfarfod nesaf ar 2 Rhagfyr 1999.

[2] Mae aelodaeth wedi'i hymestyn hyd 31/10/1999. Caniatawyd estyniadau tymor byr er mwyn rhoi digon o amser i'r Cynulliad ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r penodiad yn y dyfodol. Mae'n debygol y bydd Aelodau yn cael cynnig am gyfnod arall

[3] Cytunwyd ymestyn aelodaeth Miss Sue Kent yn y tymor byr hyd at 31/03/2000, er mwyn rhoi digon o amser i'r Cynulliad ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r penodiad yn y dyfodol.

[4] Cytunwyd ymestyn aelodaeth John Williams yn y tymor byr hyd at 31/12/1999, er mwyn rhoi digon o amser i'r Cynulliad ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r penodiad yn y dyfodol.

[5] Cytunwyd ymestyn aelodaeth Mrs Barbara Bale yn y tymor byr hyd at 31/12/1999, er mwyn rhoi digon o amser i'r Cynulliad ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r penodiad yn y dyfodol.

[6] Mae Stan Wyn Jones wedi datgan ei fwriad i adael ei swydd fel Cadeirydd pan fydd yn ymddeol ar 31 Mawrth 2000.

**Atodiad 5**

| **CIC** | **Safle** | **Teitl** | **Llythyren Flaen** | **Cyfenw** | **Cyfnodau Blaenorol** | **Cyfnod Cyfredol** | **Cyfnod yn dod i ben** | **Nifer y cyfnodau*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Brycheiniog a Maesyfed | Aelod | Mr | H D B | Williams | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Aelod | Mrs | Y M | Griffiths***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Aelod | Mr | D | Thomas | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerffili | Aelod | Mr | K | Perryman***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerffili | Aelod | Mr | E M | Edmunds | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerdydd | Aelod | Miss | E J M | Cooper***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerdydd | Aelod | Mrs | M C | Williams | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerfyrddin/Dinefwr | Aelod | Mrs | I M | Maisey***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Caerfyrddin/Dinefwr | Aelod | Mr | P A | Morgan | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ceredigion | Aelod | Mr | C | Mason-Watts | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Conwy | Aelod | Mr | R I | Thomas***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Conwy | Aelod | Miss | D | Atkinson | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyffryn Clwyd | Aelod | Mr | E E | Williams***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Dyffryn Clwyd | Aelod | Mr | D | Tibbetts | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Llanelli/Dinefwr | Aelod | Mrs | M E | James***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Llanelli/Dinefwr | Aelod | Mr | J H | Owens | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Meirionnydd | Aelod | Dr | I E | Roberts | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Merthyr a Chwm Cynon | Aelod | Mrs | E O | Evans***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Castell-nedd a Phort Talbot | Aelod | Mrs | J H | Thomas***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Y Gogledd Ddwyrain | Aelod | Mr | J L | Jones | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Gwent | Aelod | Mr | B R | Hood***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Gogledd Gwent | Aelod | Mrs | L M | Radley | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| De Gwent | Aelod | Mr | A R | Bradley***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| De Gwent | Aelod | Mrs | E F | Dixon | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Abertawe | Aelod | Ms | V H | Ruddall***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Abertawe | Aelod | Mrs | C A | Hinton | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Taf Elái a'r Rhondda | Aelod | Ms | C | Latus | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Bro Morgannwg | Aelod | Mrs | M A | Campbell***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Ynys Mon | Aelod | Miss | E | Hughes***** | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |
| Ynys Mon | Aelod | Mrs | P A | Moore | Dim | 01/04/1996 | 31/03/2000 | 1 |

**Noder:**

Gwnaed pob penodiad ar 1 Ebrill 1996 a dônt i ben ar 31 Mawrth 2000. Penodwyd yr aelodau a ddynodir â "*" am gyfnod o

2 flynedd ond cafodd eu penodiadau eu hymestyn am 12 mis ar ddau achlysur, sef tan 31 Mawrth 2000.

**<u>Atodiad 6 - PENODI CADEIRYDD: STRATEGAETH</u>**

**Annibynnol yn cymeradwyo’r strategaeth**

**YC yn cymeradwyo'r strategaeth**
**(yn dilyn trafodaethau gyda 2 Aelod o'r Pwyllgor Iechyd))**

**Materion Hysbysebu**
**(copïau at YC))**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**

**Didoli**

**D/NHSD, Annibynnol**

**Pennaeth Uned Benodiadau'r NHS**

**Trefnu Cyfweliadau**

**Cyfweliadau**

**YC, 2 Aelod, D/NHSD, Annibynnol,**

**Pennaeth Uned Benodiadau'r NHS**

**Cyhoeddiad Cyhoeddus**

## Annex 7 - PENODI CYFARWYDDWR ANWEITHREDOL: STRATEGAETH

**Annibynnol yn cymeradwyo'r strategaeth**

**YC yn cymeradwyo'r strategaeth**
**(yn dilyn trafodaethau gyda 2 Aelod o'r Pwyllgor Iechyd))**

**Materion Hysbysebu**
**(copïau at YC))**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**

**Didoli**

**D/NHSD, Annibynnol**

**Pennaeth Uned Benodiadau'r NHS**

**Trefnu Cyfweliadau**

**Cyfweliadau**

**D/NHSD, Annibynnol, Pennaeth Uned Benodiadau'r NHS**

**Cyhoeddiad Cyhoeddus**